BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

RHAGFYR 2025

# Nadolig Llawen

Ar ran holl staff a Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd diolch i chi gyd am eich cefnogaeth yn ystod 2025.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen i chi oll a dymunwn 2026 heddychlon a hapus i bawb.

Bethan Russell Williams- Prif Swyddog

Bydd swyddfa Mantell Gwynedd ar gau o 12.30y.h ar y 24ain o Ragfyr hyd 2il Ionawr 2026

Ffôn: 01286 672 626
www.mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com


CYFLE
GWIRFODDOLI
GWIRFODDOLWYR
CYMUNEDOL- RNID
HELPU I RANNU GWYBODAETH AM
FYDDARDOD, COLLI CLYW A TINNITUS
Yn y gymuned - Gwynedd
Hyblyg- yn eich amser chi
01286 672 626
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com
RNID
Supporting people
who are deaf, have
hearing loss or tinnitus
MANTELL
GWYNEDD



A OES GAN EICH
GRŴP GYFLEOEDD
GWIRFODDOLI
DROS Y NADOLIG?
Cysylltwch gyda ni efo
unrhyw fanylion neu
cwblhewch y ffurflen isod
MANTELL
GWYNEDD


GWIRFODDOLI
DROS Y
NADOLIG
ALLWCH CHI HELPU?
Eisiau helpu eraill dros y Nadolig?
Amser i'w sbario?
Rydym yn paratoi rhestr o lefydd fydd angen gwirfoddolwyr
Cofrestrwch eich manylion efo ni!
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com
01286 672 626
Sganiwch y cod isod
MANTELL
GWYNEDD


Cynllun Gwirfoddoli
GWYNEDD
Volunteer Scheme
Cynllun tystysgrifau oriau gwirfoddoli yng Ngwynedd
Volunteer hours certificate scheme in Gwynedd
25
50
100
200
500
1,000
Cofrestrwch am ddim!
Register for free!
www.mantellgwynedd.com
01286 672 626
MANTELL
GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE

# Cynllun Cyfeillio Ffrindia' Newydd

**Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli ystyrlon? Ymunwch â ni!**





## Beth?

Cyfeillio gydag unigolyn dros 50 sy'n teimlo'n unig



## Pam?

Dim ond awr neu ddwy yr wythnos ond mae'n gwneud gwir wahaniaeth i fywyd rhywun




## Sut?

Cysylltwch gyda'r Swyddog Prosiect!

beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
(01286) 672 626
www.mantellgwynedd.com

MANTELL GWYNEDD

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol



Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 12fed o Dachwedd yn amgylchedd unigryw Portmeirion, gan ddod â phartneriaid, gwirfoddolwyr a sefydliadau o bob cwr o Wynedd at ei gilydd. Thema'r flwyddyn hon oedd gwirfoddoli gan roi cyfle i ddathlu cyfraniad hollbwysig gwirfoddolwyr ac i arddangos mentrau newydd ysbrydoledig.

Agorwyd y cyfarfod gyda chrynodeb o waith Mantell Gwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf, cyn troi'r sylw at brosiectau gwirfoddoli arloesol. Rhannodd **Beca Gruffudd** wybodaeth am **Ffrindia' Newydd** sef cynllun cyfeillio lansiwyd gan Mantell Gwynedd yn gynharach eleni gyda nawdd SPF.

Mae'r cynllun sydd wedi cychwyn ers yr haf eisoes wedi paru gwirfoddolwyr gydag unigolion er mwyn lleihau unigrwydd ac adeiladu cysylltiadau ystyrlon.






# CYFARFOD BLYNYDDOL 2024

Bu cyfraniad **Luke Ryan** o **Reilffordd Talyllyn** hefyd yn boblogaidd iawn yn ystod y cyflwyniadau. Rhannodd brofiadau ysbrydoledig am eu Grŵp Aelodau Ifanc  a gwblhaodd brosiect arloesol i adeiladu ac ail-greu cerbyd powdwr gwn gyda chefnogaeth Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd, sy'n cael ei weinyddu gan Mantell Gwynedd. Roedd ei straeon yn amlygu'r sgiliau, yr hyder a'r ymdeimlad o berthyn sy'n datblygu ymhlith pobl ifanc trwy wirfoddoli.



Uchafbwynt y cyfarfod oedd croesawu **Gretel Leeb,** Cadeirydd y Grŵp Arweinyddiaeth Traws Sector Gwirfoddoli, ac **Aaron Fortt** o Lywodraeth Cymru. Rhoddodd y ddau ddiweddariad ar y Weledigaeth Newydd ar gyfer Gwirfoddoli yng Nghymru gan amlinellu'r fframwaith i gefnogi sefydliadau, gwella profiad gwirfoddolwyr, a chynyddu cyfleoedd ym mhob cymuned. Roedd pwyslais ar sicrhau fod yr weledigaeth hefyd yn cael ei gwreiddio i bob adran yn Llywodraeth Cymru.  Y gobaith yw y bydd hyn yn cynnig cyfeiriad clir yn y  dyfodol i agenda gwirfoddoli yng Nghymru.

Hoffai Mantell Gwynedd ddiolch i'r siaradwyr, y mynychwyr, a'r holl wirfoddolwyr sy'n parhau i feithrin diwylliant bywiog o fewn y trydydd sector yng Ngwynedd.



# IECHYD A LLESIANT

## RHAGLEN GWEITHGAREDDAU RHAGFYR 2025

### FELIN FACH

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|
| Banc Barclays 9:30-4:00 | Banc Barclays 9:30-4:00 | Banc Barclays 9:30-4:00 | Banc Barclays 9:30-4:00 | Fan Samaritans 10:00-12:00 (5ed yn unig) |
| Banc Lloyds 9:00-3:00 (1af+15eg) | Gwnio 1:00-4:00 | Celf a Chreft (LLAWN) 10:00-2:00 | Galw Heibio a Brecwast 9:30-11:30 | Fan Audiology (19eg yn unig) |
| Ysgrifennu Creadigol 10:00-12:00 | Cefnogaeth Gyda PIP (Bwcio Yn Unig) | Coginio Cartref i Ddechreuwyr 9:00-12:00 (Bwcio Yn Unig) | Grwp AA 12:30-1:30 | Celf a Chreft 10:00-3:00 |
| Myfyrdod 1:00-3:00 | | Coginio Cartref Bwyta'n Iach (LLAWN) 12:30-3:30 | Sesiwn Galw FewnYnni 1:00-2:30 (2ail yn unig) | Nacro 3:00-5:00 (5ed+19eg) |
| | | | Cefnogaeth Gyda PIP (Bwcio Yn Unig) | |

Oriau Agor Dydd Llun-Dydd Gwener 9:00-5:00


01758 701611 | Company Number:3280924 | Charity Number:1060770

Dŵr Cymru Welsh Water

Arbedwch hyd at £300

## Ydych chi'n poeni am gost tymor y dathlu?

Mae gennym nifer o opsiynau cymorth a allai eich helpu i arbed ar eich bil dŵr.



R'yn ni yma i helpu

Ffoniwch ni i drafod eich opsiynau ar:
**0800 052 0145**

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o fanylion:
**dwrcymru.com/helpgydabiliau**

GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC / SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

## CLWB POBL IFANC

*Pob Dydd Iau | Every Thursday!*

Lle diogel i ymlacio, cymdeithasu a chael cefnogaeth. A safe place to relax, socialise, and get support.



4-6PM | HWB DINAS BANGOR

Oed / Age 14-25

01286 671153 · www.gisda.org · gisda@gisda.co.uk · @gisdacyf



# Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru



**'Sut i roi cymunedau wrth wraidd trawsnewid canlyniadau.'**
*Brian Laing, Rheolwr Partneriaethau Strategol*
**BCUHB Iechyd Cyhoeddus**

**'Cynnydd mesur a rheoli gwerth cymdeithasol Adra.'**
*Llinos Bracegirdle , Cydgysylltydd Gwerth Cymdeithasol,*
**Cymdeithas Tai, Adra**

## Cyfarfod ar Zoom

**Dydd Mercher, 14eg o Ionawr 2026**
**10.30 -12.30 o'r gloch.**
I LOGI EICH LLE AM DDIM, cofrestrwch ar Eventbrite:

https://www.eventbrite.co.uk/e/cyfarfod-rhwydwaith-gwerth-cymdeithasol-gogledd-cymru-tickets-1440510127569?utm-campaign=social&utm-content=attendeeshare&utm-medium=discovery&utm-term=listing&utm-source=cp&aff=ebdsshcopyurl =

Am fwy o fanylion mae croeso i chi gysylltu: svc@mantellgwynedd.com

# Anghenion Hyfforddiant Trydydd Sector Gwynedd



**Rydym eisiau clywed gennych chi!**

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi'r trydydd sector yng Ngwynedd, mae Mantell Gwynedd yn gweithio ar hyn o bryd ar adnabod anghenion hyfforddiant a datblygu ar gyfer mudiadau, staff a gwirfoddolwyr.

Er mwyn ein helpu i sicrhau bod ein cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion penodol y sector, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr eich mewnbwn i'r Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi.

Rydym yn awyddus i ddeall anghenion hyfforddiant y sector yn y meysydd canlynol:

- Bylchau sgiliau neu wybodaeth y dylid mynd i'r afael â hwy trwy hyfforddiant.
- Pynciau hyfforddi penodol, offer, neu lwyfannau y teimlwch y byddent yn gwella effeithiolrwydd.
- Dulliau neu fformatau ar gyfer cynnal hyfforddiant (e.e. wyneb yn wyneb neu gyrsiau ar-lein).



Mae eich adborth yn bwysig i ni allu llunio ein rhaglen hyfforddiant. Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r ffurflen anghenion hyfforddi isod fel y gallwn ddechrau cynllunio a threfnu'r camau nesaf.

Dilynwch y cyswllt isod neu cod QR ar gyfer cwblhau'r holiadur:

https://forms.office.com/e/WFQ3tGg0uL



# DIGWYDDIADAU
# CWRDD Â CHYLLIDWYR



**CGGC - Cronfa Ynni Glân**
Dydd Mercher 28/01/2026
10:00 - 11:00
Ar-lein

***Dysgwch fwy am Gronfa Ynni Glân! Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych!***



I gofrestru, am ddim, ewch i:-
https://www.eventbrite.co.uk/e/cwrdd-a-cyllidwr-meet-the-funder-cggc-wcva-tickets-1975322360354?aff=oddtdtcreator

MANTELL GWYNEDD

***Cofrestru yn hanfodol.***
01286 672 626
ymholiadau@mantellgwynedd.com

# Gliniaduron ar gael i'w llogi!

Mae Mantell Gwynedd yn falch o gyhoeddi bod gennym gliniaduron newydd sbon ar gael i'w llogi gan sefydliadau'r trydydd sector a gwirfoddolwyr.

Nod y cynnig yw gwella sgiliau digidol a hyrwyddo cynhwysiant digidol o fewn y gymuned. Os gallai eich grŵp neu'ch gwirfoddolwyr elwa o well mynediad at dechnoleg, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth!



# GWYBODAETH

# Gweithdai AM DDIM ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Disclosure & Barring Service

**Ymunwch ar gyfres o weithdai am ddim a gyflwynir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol yng Nghymru**

### 🚫 Gweithdy Gwahardd DBS

📅 Maw 20 Ion | 🕛 12:00–13:30

Dysgwch pryd a sut i gyfeirio, Y llwybrau cyfeirio, a chanlyniadau diffyg gweithredu

### 📨 Gweithdy Casglu Gwybodaeth y Gwasanaeth DBS

📅 Maw 10 Chwef | 🕚 11:00–12:30

Deall eich dyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth a'r ddeddfwriaeth y tu ôl iddi.

### 🔄 Gweithdy Gwasanaeth Diweddaru DBS

📅 Maw 24 Chwefror | 🕙 10:00–11:30

Dysgwch sut i ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru i symleiddio recriwtio.

### 📫 Gweithdy Gwasanaeth Atgyfeirio Gwahardd y Gwasanaeth DBS

📅 Mawrth 17 Chwefror | 🕐 13:00–14:00

Sesiwn ffocws ar ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio a gwneud atgyfeiriadau effeithiol.

### ⚠️ Gweithdy Ymddygiad Niweidiol y Gwasanaeth DBS

📅 Mer 4 Chwefror | 🕚 11:00–12:30

Archwilio ymddygiad niweidiol, risgiau diogelu, a gwneud atgyfeiriadau gwahardd.

### ✅ Pam mynychu?

- Canllaw penodol i'r sector
- Gwella arferion diogelu
- AM DDIM i fynychu
- Rhwydweithio a rhannu arferion da

📩 Llefydd cyfyngedig ar gael- archebwch heddiw isod:

🔗 Archebwch yma

https://www.eventbrite.com/o/dbs-regional-safeguarding-outreach-workshops-32394514303?_gl=1*166o6w6*_up*MQ..*_ga*MTAwNzI5NDcyOC4xNzUwOTUwNjg4*_ga_TQVES5V6SH*czE3NTA5NTA2ODckbzEkZzAkdDE3NTA5NTA2ODckajYwJGwwJGgw